PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 157 Rhif 47 Tachwedd 21, 2024 50c.

## Mr Sam Owen yn gant oed

Ar 21 Medi dathlodd Mr Sam Owen ei ben-blwydd yn gant. Daeth y teulu ynghyd i ddathlu'r achlysur arbennig yma gyda Sam a'i wraig Eunice, a galwodd nifer o ymwelwyr yn y tŷ i'w weld i ddymuno'n dda iddo. Mae Sam yn frodor o Bentrefoelas, lle mynychodd yr ysgol leol cyn mynychu ysgol ramadeg Llanrwst. Aeth i weithio ar fferm deuluol a helpu ffermwyr lleol yn y blynyddoedd cynnar.




### Capel Coffa

Mynychodd Sam eglwys Bethel Pentrefoelas dan ofal y Parchedig Caradog Roberts ac yna eglwys y Tabernacl Llanrwst dan ofal y Parchedig Tom Davies ac wedyn y Parchedig Idwal Jones. Yma y priododd Sam ag Eunice, ac yna symud i Gyffordd Llandudno yn 1960, ac mae wedi bod yn aelod blaenllaw o Gapel Coffa ers hynny. Bu'n drysorydd am 31 o flynyddoedd, yn cydweithio'n agos â'r diweddar Mr Gwilym Parry oedd yn ysgrifennydd ariannol.

### Cymwynaswr

Mae'n flaenor ers 54 o flynyddoedd ac mae wedi cymryd diddordeb mawr yn holl agweddau'r capel, yn ymddiriedolwr, yn aelod o'r pwyllgor adeiladau, ac yn gefn i'r gweinidogion i gyd dros y blynyddoedd. Mae hefyd wedi ymhyfrydu yng ngardd Capel Coffa, gan ofalu am dwtio a thorri'r ardd a phlannu'r borderi tan yn ddiweddar. Mae hefyd yn gymwynaswr mawr, yn ddyn hynaws, ac wedi bod yn aelod ffyddlon iawn a gweithgar yng Nghapel Coffa. Cofiwn hefyd fel y bu'n ymweld â chleifion yn yr ysbytai lleol gyda geiriau o gysur iddynt.

Yn Ionawr 1961 cafodd Sam swydd ar y rheilffordd a bu'n gweithio i'r Cwmni Rheilffordd Prydeinig am 27 o flynyddoedd, gwaith amrywiol yr oedd yn ei fwynhau yn fawr. Ar ôl ymddeol yn 1989 bu yn gwirfoddoli, ynghyd ag 8 arall, yng ngorsaf Tal-y-Cafn, yn sicrhau bod yr orsaf yn daclus a'r lawnt a'r blodau yn odidog.

Ymysg ei ddiddordebau mae wedi mwynhau garddio ar hyd ei oes - yn tyfu llysiau, blodau a ffrwythau yn yr ardd ac yn y rhandir. Llongyfarchiadau, a dymuniadau gorau iddo.

**Julie Jones**

## Capel Rhyd-y-main




*Y Parchg Huw Dylan, Gweno, Magi, Erin, Sara, Llio a Tesni*

Ddydd Sul, 20 Hydref, daeth cynulleidfa luosog ynghyd yng nghapel Rhyd-y-main i oedfa arbennig dan arweiniad y Parchg Huw Dylan, Llangwm. Hyfryd oedd bod yn dystion i wasanaeth derbyn chwech o ferched ifanc yr ardal yn gyflawn aelodau, sef Llio Emlyn Roberts, Esgairgawr, Tesni Vaughan Jones, Bryn Derw, Sara Pennant Jones ac Erin Pennant Jones, Braichbedw, ynghyd â Magi Non Jones a Gweno Aur Jones, Cymagwern. Braint i'r eglwys yw eu cael yn aelodau.

Yn dilyn y gwasanaeth, cafwyd swper dathlu yn y neuadd drwy garedigrwydd Trebor ac Annwen Roberts, Glan Mynach, a mawr yw diolch yr eglwys iddynt hwy am eu haelioni.

# STORM EGLWYS LOEGR

Mae ymddiswyddiad Justin Welby yn ddigwyddiad wirioneddol hanesyddol. Fe yw'r Archesgob cyntaf i adael ei swydd yn sydyn ers William Sancroft yn 1690. Cafodd Sancroft ei ddiswyddo fel Archesgob Caergaint am wrthod tyngu llw o deyrngarwch i William a Mary, oedd yn teyrnasu ar y cyd ar orsedd Lloegr. Eto, ni fu tynged y ddau gynddrwg â'r archesgob Thomas Becket, a lofruddiwyd yn ei eglwys gadeiriol ei hun gan bedwar marchog yn dilyn ffrae gyda'r brenin Harri'r Ail yn 1170.

### Ystyr eglwys wladol

Mae Eglwys Loegr yn rhan o'r wladwriaeth, a bu'n rhaid i Justin Welby ofyn i'r Brenin Siarl am hawl i gamu lawr o'i swydd. Y brenin yw 'Goruwch-lywodraethwr' Eglwys Loegr ac 'Amddiffynnydd y Ffydd'- sef teitl a roddwyd i Harri'r Wythfed gan y Pab Leo X am gyhoeddi pamffled yn gwrthsefyll Martin Luther. Dyna ystyr y Fid. Def. sydd ar y darnau arian yn eich poced neu bwrs.

THE CHURCH OF ENGLAND

### Esgobion yn Nhŷ'r Arglwyddi

Cafodd yr Eglwys Anglicanaidd ei datgysylltu oddi wrth y wladwriaeth yn 1920, pan sefydlwyd yr Eglwys yng Nghymru. Bu pwysau dros y blynyddoedd i wneud hynny yn Lloegr hefyd, lle mae 26 o'i hesgobion yn eistedd yn Nhŷ'r Arglwyddi - sydd, wrth gwrs, yn rhan o lywodraeth y Deyrnas Unedig. Dywedodd y cyn archesgob, Rowan Williams ei fod yn amau tegwch y fath drefn.

### Ymdrech i ddiarddel yr esgobion

Trwy gyd-ddigwyddiad, ddydd Mercher diwethaf fe wnaeth aelodau seneddol drafod cynnig i ddiarddel yr esgobion o Dŷ'r Arglwyddi. Honnodd yr aelod Ceidwadol Andrew Murrison AS mai Prydain yw'r unig wlad ar wahân i Iran ble mae clerigwyr yn rhan o'r wladwriaeth. Dywedodd Pete Wishart AS o'r SNP bod presenoldeb yr esgobion yn Nhŷ'r Arglwyddi yn hollol abswrd. Er gwaetha hynny, roedd canlyniad y bleidlais 378–41 yn erbyn y cynnig, yn sgil chwip gan Lafur.

### Beth nesa?

Mae'r broses o benodi Archesgob Caergaint yn un hir a chymhleth am fod yr eglwys wedi ei phlethu gyda'r wladwriaeth. Bydd Comisiwn Enwebiadau'r Goron yn cael ei sefydlu, gydag 17 aelod o wahanol haenau o'r eglwys. Ar ôl arholi a chynnal cyfweliadau gyda'r ymgeiswyr, bydd un enw'n cael ei gynnig i'r Prif Weinidog, a fydd yn ei dro'n ei drosglwyddo i'r brenin. Ar ôl i'r brenin roi sêl ei fendith i'r enwebiad, bydd y Prif Weinidog yn cyhoeddi enw'r darpar-archesgob cyn i ganoniaid Eglwys Gadeiriol Caergrawnt ei ethol yn ffurfiol. Bydd hynny erbyn tua diwedd gwanwyn 2025.

**Alun Lenny**

# Y gwir Israel

Nid oes arnaf gywilydd o Abraham na Moses na Josua, nac o addewidion Duw iddynt ynghylch y wlad y byddai'n eu harwain iddi. Amdani, gwlad Canaan y dywedodd Duw wrth Moses, 'I'th ddisgynyddion di y rhoddaf y wlad hon.' (Genesis 12:7) Nid heb reswm y'i galwyd yn 'Wlad yr Addewid'. Ynddi yr ymgartrefodd Abraham; arni yr oedd bryd Moses a'r genedl wrth iddynt adael caethiwed yr Aifft; ac i mewn iddi y croesodd Josua ddeugain mlynedd wedi hynny. Amdani, flynyddoedd yn ddiweddarach yr hiraethai disgynyddion Abraham trwy flynyddoedd y Gaethglud: 'Ger afonydd Babilon yr oeddem yn eistedd ac yn wylo wrth i ni gofio am Seion.' (Salm 137:1) Ac yn ôl iddi y daethon nhw wedyn gyda Nehemeia. Y mae i Ganaan ran amlwg yn stori'r Efengyl, ac i'r wlad honno ac at y bobl hynny y daeth yr Arglwydd Iesu ei hun ymhen canrifoedd.

### Cyflawniad

A chyda'i ddyfodiad y cyflawnwyd yr addewidion a roddwyd i Abraham a'i ddisgynyddion. Roedd yr hirddisgwyliedig Feseia a fyddai'n achub ei bobl wedi dod. Roedd yr addewidion y byddai pobl Israel yn bobl Dduw yn cael eu cyflawni yn yr 'Israel newydd' a fyddai'n cynnwys pobl o bob hil a gwlad. Ac roedd yr addewidion am Ganaan yn dir a chartref i bobl Dduw yn cael eu cyflawni yn y gobaith am y 'Ganaan dragwyddol', y nefoedd a fyddai'n gartref terfynol a pharhaol i'r 'Israel newydd' hon. Ac nid oes arnaf chwaith gywilydd o'r Apostol Paul a'i eiriau: 'Nid y plant o linach naturiol Abraham, nid y rheini sy'n blant i Dduw. Yn hytrach, plant yr addewid sy'n cael eu cyfrif yn ddisgynyddion.' (Rhufeiniaid 9:8) Gyda dyfodiad Crist a thrwy ei waith, y mae pawb sy'n ymddiried ynddo ac yn credu'r Efengyl yn rhan o'r 'wir Israel' ac yn cerdded y ffordd sy'n arwain i'r 'Ganaan dragwyddol'. 'Tangnefedd arnynt, a thrugaredd; ie, ar Israel Duw.' (Galatiaid 6:16) Yng Nghrist rhoddwyd ystyr newydd i hen addewidion; daeth un drefn i ben wrth i drefn newydd gael ei sefydlu.

### Cywilydd

Na, nid oes arnaf gywilydd o addewidion Duw. Ond y mae arnaf gywilydd o'r hyn a glywais yr wythnos ddiwethaf gan eithafwyr yn ne Israel a gynhaliai ŵyl nid



nepell o'r ffin â Gaza ddrylliedig. Soniai un dyn am y 'clwyf' y mae'n rhaid gwared ag o er mwyn i'r Israeliaid gael 'y wlad a addawyd i ni'. Y 'clwyf' oedd holl drigolion Gaza y credai'r dyn sydd raid eu lladd neu eu halltudio. Mae ar y wlad a'i phobl angen ein gweddïau.

**John Pritchard**

(allan o *Llais Aled*, 27 Hydref 2024)

Yr Adran
Gydenwadol

TACHWEDD 21 2024 RHIF 195

## Bedyddio a derbyn wyth o aelodau yng Nghaersalem, Dyfed, a Smyrna, Cas-mael



Disgrifiwyd 20 Hydref nifer o weithiau yn ystod y prynhawn hwnnw fel 'diwrnod mawr'. Yn wir, mewn oes pan welir cilio oddi wrth grefydd a thrai mewn aelodaeth eglwysi, sut arall y gellid disgrifio'r hyn a ddigwyddodd yng Nghaersalem y diwrnod hwnnw? Y prynhawn Sul hwnnw, o flaen tyrfa fawr iawn o bobl, gwelwyd wyth o bobl ifainc yr ardal yn tystio ar gyhoedd eu bod am 'ddilyn Iesu'. Arweiniwyd yr wyth ymgeisydd – Hawys, Efa, Gethin, Ifan ac Osian o Gaersalem, ac Alaw, Mari a Rhys o Smyrna, Cas-mael – i lawr i'r fedyddfan gan y diaconiaid, a phump ohonynt yn gwneud y dasg honno am y tro cyntaf un.

Cyn mynd at ymyl y fedyddfan, cynhaliwyd oedfa tu hwnt o fendithiol yn y capel o dan ofal gweinidog anrhydeddus yr eglwys, y Parchg Alwyn Daniels, pryd y cyflwynwyd neges o anogaeth a her i'r bobl ifainc a'r gynulleidfa niferus. Wedi ordinhad y bedydd, braf oedd cael ymuno gyda'r bobl ifainc a'u teuluoedd a'u ffrindiau mewn cymdeithas yn y capel dros disied a theisen.

Ymhen pythefnos, ar 10 Tachwedd, ar Sul y Cofio, cafwyd oedfa gymun hwyrol i'w chofio, yng ngwir ystyr y gair, wrth i'r pump a fedyddiwyd gael eu derbyn yn gyflawn aelodau o eglwys Caersalem. Cafodd y tri arall a fedyddiwyd ar yr un diwrnod eu derbyn y prynhawn hwnnw'n aelodau yn Smyrna, Cas-mael. Yn ei ddarlleniad cafwyd un o'r hanesion amrywiol am 'Gaersalem' a welir yn yr Ysgrythurau, a chyflwynodd y Parchg Alwyn Daniels neges amserol i'r aelodau newydd a hen. Atgoffodd bawb am bwysigrwydd gwybod lle rydych ar eich taith ysbrydol a bod yn barod i dderbyn o'r goleuni a dreiddiodd o amrywiol leoedd a digwyddiadau ar hyd y daith wrth gerdded gydag Iesu.

Wrth estyn deheulaw cymdeithas, derbyniwyd Osian, Ifan, Gethin a Hawys James ac Efa Lewis yn gyflawn aelodau, a'r pump yn cyfranogi o'r Cymun am y tro cyntaf erioed. Rhyfedd iawn oedd eu croesawu i'r eglwys ar ôl yr oedfa, gan fod pob un ohonynt wedi hen arfer dod i'r oedfaon a'r ysgol Sul ers yn ifanc iawn ac eisoes yn rhan o'r eglwys.

Diolch o waelod calon i'r Parchg Alwyn Daniels a fu'n weinidog da a ffyddlon i'r eglwys yng Nghaersalem ers 1985. Mae wedi ymddeol bellach, ond nid oes eisiau rhywun doeth iawn i ddeall mai ffrwyth ei lafur ef yw'r hyn sydd wedi digwydd yng Nghaersalem y flwyddyn hon, wrth inni dderbyn aelodau newydd, a hynny wrth gwrs yn glod i Dduw!

*Bonni Davies*

## Derbyn 21 o aelodau ifanc newydd yng Ngofalaeth Fro Trawsfynydd



Gweinidogaeth fro sydd yn Nhrawsfynydd, a chynhelir prif ddigwyddiadau'r ofalaeth yng Nghapel Moreia, y capel mwyaf, yng nghanol y pentref. Achlysur o'r fath yn ddiweddar oedd derbyn 21 o bobl ifainc y fro yn gyflawn aelodau yn y gwahanol gapeli sy'n rhan o Ofalaeth Trawsfynydd. Mae hyn yn newyddion arbennig o galonogol ac yn argoeli'n gadarnhaol i'r dyfodol.

Mae'r ofalaeth wedi colli ei gweinidog yn y blynyddoedd diwethaf, ond braf oedd manteisio ar wasanaeth y Parch. Iwan Llywelyn Jones, Porthmadog, i gyflawni'r weithred o dderbyn aelodau ar ran y gwahanol gapeli. Torrwyd tir newydd hefyd yn y ffaith fod cyfarfod paratoi a'r derbyn ei hun wedi digwydd ar Zoom i un person oedd filltiroedd i ffwrdd ... yn California ! Tybed ai hwn oedd y tro cyntaf erioed i hyn ddigwydd, gyda Llŷr Ellis yn cymryd rhan yn y cyfarfod, a hynny trwy gyfrwng ffôn?

Gwerthfawrogwyd y naws arbennig oedd i'r gwasanaeth hanesyddol yma a oedd ar brydiau yn bur emosiynol i nifer. Nid yn aml y profir y fath lawenydd mewn oedfa, ond roedd yr achlysur o gael 21 o bobl ifainc gyda'i gilydd yn ysbrydoliaeth, ac rwy'n siŵr i nifer deimlo bod rhywbeth uwchlaw'r dyrchafol yn digwydd yno. A diolch am gael bod yn dyst.

*Gerallt Rhun*



Iwan yn cyfarfod y darpar-aelodau

# Datganiad CWM ar yr Argyfwng Dyngarol yn y Dwyrain Canol, Tachwedd 2024

Fe gyfarfu Bwrdd Ymddiriedolwyr Cyngor y Genhadaeth Fyd-Eang (CWM) yn Singapore ar 11–12 Tachwedd. Agorwyd y cyfarfod gan Lywydd CWM, Dr Natalie Lin, gyda myfyrdod ar Salm 33, sy'n pwysleisio cyfiawnder a natur arhosol cenhadaeth Duw. Ymysg y penderfyniadau allweddol oedd i'r Bwrdd dderbyn a chefnogi datganiad yn mynd i'r afael â'r argyfwng dyngarol sy'n dwysáu yn y Dwyrain Canol.

Mae CWM yn bartneriaeth fyd-eang o 32 o eglwysi Cristnogol sydd wedi ymrwymo i rannu eu hadnoddau mewn arian, pobl, doniau a gweledigaeth er mwyn cyflawni cenhadaeth Duw yn lleol. Mae'n cynnwys pedwar enwad yng Nghymru, sef Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, Eglwys Bresbyteraidd Cymru, yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig a'r Ffederaliaeth Gynulleidfaol.

Mae Cyngor y Genhadaeth Fyd-eang (CWM) yn bryderus iawn am y gwrthdaro parhaus yn y Dwyrain Canol a'r trais cynyddol sy'n effeithio ar Gaza a Libanus. Yn drist iawn, mae'r gwrthdaro hwn wedi hawlio bywydau dros 51,000 o Balesteiniaid yn Gaza a dros 2,000 yn Libanus, ac mae tua dwy filiwn o drigolion Gaza wedi'u dadleoli, yn ogystal â miliwn o drigolion Libanus. Mae'r dinistr i fywydau, cartrefi, a seilwaith hanfodol yn ein tristáu'n fawr, ac yn galw am weithredu di-oed ar sail tosturi, cyfiawnder, ac egwyddorion dyngarol.

Ar ben hynny, rydym yn bryderus iawn am y newidiadau yng ngwleidyddiaeth yr Unol Daleithiau a thawelwch parhaus gwledydd eraill ledled y byd yn wyneb yr hil-laddiad sy'n datblygu yn Gaza. Rydym yn cefnogi'r holl bobl ddiniwed y mae'r argyfwng hwn yn effeithio arnynt—yn enwedig y rhai yn Gaza, Libanus, a hyd yn oed Israel—sydd wedi cael eu dal yn y don hon o ddioddefaint a cholled. Mae pob math o drais, boed yn gyrchoedd awyr, yn ymosodiadau gan rocedi, neu'n ymosodiadau ar lawr daear, yn golygu bod y dioddefaint yn parhau a chylch y boen a'r dinistr yn cael ei ymestyn.

- Rydym yn galw am gadoediad ar unwaith rhwng pob ochr a blaenoriaethu'r elfennau dyngarol trwy ganiatáu i gymorth gyrraedd Gaza a Libanus yn ddirwystr. Mae sicrhau'r mynediad uniongyrchol hwn at gymorth hollbwysig – bwyd, dŵr, cyflenwadau meddygol, a lloches – yn hanfodol ar gyfer diogelu bywyd a lleddfu dioddefaint niferoedd mawr o bobl ddiniwed.
- Rydym yn annog pawb sydd ynghlwm â'r sefyllfa—Israel, Hamas, Hezbollah, ac eraill—i ymrwymo i siarad a thrafod fel yr unig lwybr ymarferol tuag at heddwch parhaol a diogelu bywydau.
- Rydym yn condemnio'r Unol Daleithiau a llywodraethau gwledydd Ewrop yn gryf oherwydd eu cefnogaeth mewn arfau i Israel. Trwy gyflenwi arfau soffistigedig heb oruchwyliaeth lem, mae'r cenhedloedd hyn â rhan yn y dioddefaint a'r dinistr parhaus a wynebir gan bobl gyffredin dirifedi yn Gaza a Libanus.
- Rydym yn galw am atal trosglwyddo arfau o'r fath ar unwaith ac yn annog y llywodraethau hyn i ganolbwyntio yn hytrach ar hyrwyddo heddwch a sefydlogrwydd drwy ddulliau diplomyddol.
- Rydym yn condemnio cyfryngau'r Gorllewin am eu hadroddiadau rhagfarnllyd, eu sylw dethol i ddigwyddiadau, a'u naratifau camarweiniol, sy'n aml yn fframio neu'n trin y sefyllfa mewn modd sy'n cuddio'r cymhlethdodau hanesyddol a chymdeithasol-wleidyddol dyfnach.
- Rydym yn eu condemnio am ledaenu stereoteipiau am Balesteiniaid a chyfiawnhau'r trais. Mae eu methiant i gyfleu safbwyntiau cytbwys sy'n amlygu dioddefaint pobl ddiniwed neu herio deinameg grym yn eu gwneud yn rhan annatod o gyflawni'r trais.
- Rydym yn galw ar y Cenhedloedd Unedig a sefydliadau rhyngwladol eraill i ddwysáu eu cynlluniau heddwch trwy ddefnyddio'u dylanwad i gynnull yr holl randdeiliaid perthnasol at ei gilydd a hwyluso datrysiad ystyrlon a pharhaol i'r gwrthdaro parhaus hwn.

Yn ogystal, rydym yn annog y gymuned fyd-eang yn gryf i gynnal undod wrth ddarparu cymorth dyngarol, gan flaenoriaethu ymdrechion diplomyddol sy'n meithrin heddwch ac yn diogelu bywydau poblogaeth fregus y Dwyrain Canol.

Anogwn arweinwyr Cristnogol i godi eu llais ynghylch yr anghyfiawnderau sydd yn y Dwyrain Canol a sefyll yn erbyn pob ffurf ar Seioniaeth Gristnogol. Galwn ar eglwysi a chymunedau ffydd ledled y byd i ymuno â ni mewn gweddi am heddwch, cyfiawnder, a chymod yn y rhanbarth hwn.

Gweddïwn hefyd dros ddioddefwyr y gwrthdaro hwn, yn enwedig y merched, y plant, a'r rhai mwyaf agored i niwed, y byddant yn gallu goresgyn y trychineb hwn a chanfod cysur yng nghanol y cythrwfl. Wrth i Gristnogion baratoi at dymor yr Adfent, cawn ein hatgoffa o'i neges ddofn o heddwch a bywyd. Mae'r amser cysegredig hwn yn galw arnom i fod yn dangnefeddwyr mewn byd sy'n llawn gwrthdaro ac i feithrin gobaith am ddyfodol lle mae heddwch yn teyrnasu.

Rydym yn parhau'n gadarn ein cred fod heddwch yn bosibl trwy dosturi ac undod, hyd yn oed o fewn y rhaniadau dyfnaf. "Hyn yw trugaredd calon ein Duw – fe ddaw â'r wawrddydd oddi uchod i'n plith, i lewyrchu ar y rhai sy'n eistedd yn nhywyllwch cysgod angau, a chyfeirio ein traed i ffordd tangnefedd." (Luc 1:78–9)

Eglwys Bresbyteraidd Cymru

## Henaduriaeth Môn

## Swyddog Ymestyn Allan Henaduriaeth Môn

**Mae Henaduriaeth Mon yn chwilio am berson egnïol a brwdfrydig i weithio gydag eglwysi'r henaduriaeth i ddarparu gweinidogaeth i blant, ieuenctid a theuluoedd yr ynys**

Oriau: 35 awr yr wythnos (neu oriau i'w trafod)

Cytundeb: 2 flynedd yn y man cyntaf
gyda'r 6 mis cyntaf yn gyfnod prawf

Cyflog: Graddfa 31-35 (£31,214 – £33,051)
a chyfle i ymuno â phensiwn EBC


Mae'r swydd hon yn amodol ar ddatgeliad DBS manwl a dau eirda boddhaol.

Mae gofyniad galwedigaethol Cristnogol ac iaith Gymraeg yn berthnasol ar gyfer y swydd hon.

Am fwy o wybodaeth, ac am ffurflen gais, cysylltwch gyda:-
e-bost – swyddfa.office@ebcpcw.cymru
Ffôn: 02920627465

# *Dehongli Bywyd Ruth a Llyfr y Pregethwr*

gan Gareth Lloyd Jones
(Cyhoeddiadau'r Gair)




**Cyfres o astudiaethau gan y Parch. W. Bryn Williams ar gyfer grŵp neu unigolion; gellir eu defnyddio ochr yn ochr â'r gyfrol *Dehongli Bywyd Ruth a Llyfr y Pregethwr* gan Gareth Lloyd Jones**

## 11 Ailymweld â'r cymeriadau

Cyn i ni gloi'r astudiaethau ar Lyfr Ruth y tro nesaf, heddiw fe wnawn ni ailymweld â chymeriadau'r llyfr o gyfeiriad y naratif llawn. Gwelwn fod patrwm arbennig yma yn y cymeriadau. Ceir sawl pâr o gymeriadau mewn perthynas arbennig â'i gilydd, gan ddechrau ag Elimelech a Naomi sy'n gadael cartref er mwyn byw yng ngwlad Moab dros gyfnod y newyn yn Jwda.

Wrth i'r hanes ddatblygu ac wrth i'w hamgylchiadau ddwysáu ym marwolaeth Elimelech, mae Naomi yn weddw ac mae Mahlon a Chilion wedyn yn priodi Ruth ac Orpa, merched Moab. Ond tristwch ar ben tristwch, erbyn adnod 5 yn y bennod gyntaf, mae Mahlon a Chilion wedi marw. Yn hyn i gyd mae Naomi yn cofio am ei chartref ym Methlehem ac yn penderfynu dychwelyd yno. Ei bwriad ydy gadael ei merched yng nghyfraith hefo'u pobl ym Moab, ond fel arall mae'r ddwy yn teimlo. Maent yn benderfynol o'i chanlyn. Ond ateb Naomi iddynt, os cofiwch, ydy dweud wrthynt am fynd adref yn ôl gan ddymuno i'r ddwy gael 'cartref gyda gŵr' (1:9). Mae Orpa yn gwrando 'ond glynodd Ruth wrthi' (adn. 14).

Wrth gyrraedd Bethlehem, mae perthynas Naomi a Ruth yn datblygu ymhellach. Ac yn y caeau haidd mae Ruth yn cyfarfod Boas, a Naomi'n hyrwyddo'r berthynas honno, a hynny oherwydd ei dealltwriaeth o ddeddfau ac arferion Israel. Y pâr olaf o gymeriadau ydy Boas a'r 'perthynas agosaf' – cymeriad nad yw'r awdur yn rhoi enw iddo a hynny, mae'n debyg, am nad yw'n barod i ymgymryd â'i gyfrifoldeb.

Mae'r cyfan a ddarllenwn am Ruth ac Orpa yn anrhydeddus, a thra mae Orpa yn gwrando ar Naomi ac yn mynd yn ôl at ei phobl, yn anfoddog mae hi'n gwneud hynny. Dymuniad y darllenydd wrth ddarllen hanes Orpa ydyw ei bod, wrth fynd yn ôl adref, wedi cael, 'cartref gyda gŵr' (adn. 9).

Mae'r hanes wedyn yn symud ymlaen hefo Naomi a Ruth; mae'r ddwy yn cyrraedd Bethlehem ar ddechrau'r cynhaeaf haidd ac yn cyfarfod â'u hangen am fwyd drwy gynnig Ruth i fynd i loffa i'r caeau. Yn nigwyddiadau'r caeau ŷd mae Naomi yn gweld cyfle i newid eu hamgylchiadau. Ac yma down i adnabod cymeriad Naomi mewn gwirionedd, wrth iddi lywio Ruth i gyfeiriad Boas.

Er mwyn i'r closio at Boas ddod yn ffaith go iawn, roedd yn rhaid dod â chymeriad arall i sefyll ochr yn ochr â Boas, sef y 'perthynas agosaf'. Yma gwelwn ddoethineb Boas a'i fod yn byw i ystyr ei enw, *chayil*, sy'n golygu 'cryfder nerthol' ond hefyd 'llwyddiant'.

O ran cymeriadau eto mae'r llyfr yn gorffen efo achau. Pam? Er mwyn dangos bod yna rai enwau fydd yn aros – a hynny oherwydd teyrngarwch a ffyddlondeb. Daeth Boas a Ruth yn rhieni i Obed, yn daid a nain i Jesse, ac yn hen daid a nain i'r Brenin Dafydd, ac felly'n rhan o linach Iesu Grist.

Ac wrth droi at y bennod gyntaf yn Efengyl Mathew ac edrych i lawr yr adnodau down ar draws merched arbennig yn llinach Iesu Grist. Yma mae Tamar, gafodd ei thwyllo gan Jwda ac wedyn yn geni plentyn iddo drwy ei chyfrwystra ei hun. Rahab oedd hefyd o gefndir amheus, ond yn fam i Boas. Ruth, yr estrones o Foab, gwlad y gelyn, ond yn fam i Obed. Ac wedyn Mair, oedd yn fam ddibriod ond a genhedlodd Fab Duw.

Duw felly'n cymryd cymeriadau cyffredin, yn eu trawsnewid ac yn dod â digwyddiadau anghyffredin i fod trwyddynt. Dyma'n gobaith ninnau.

**Cwestiwn i'w drafod:**
Sut ydych chi'n uniaethu â'r cymeriadau yn Llyfr Ruth?

S4C
*Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 24 Tachwedd am 7:30yh**
Nia Roberts yn cyflwyno gwledd o ganu mawl o addoldai ledled Cymru. Cawn gyfle i fwynhau rhai o'n hoff emynau, yn cynnwys tonau poblogaidd fel 'Blaenwern' a 'Cwm Rhondda'. A bydd perfformiadau hudolus gan Ffion Emyr ac Ensemble Aberteifi.

BBC radio cymru
*Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 24 Tachwedd, am 7:30yb a 4:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Megan Williams

*Oedfa Radio Cymru*
**Sul, 24 Tachwedd, am 12:00yp**
Oedfa dan arweiniad Elin Maher, Casnewydd




Cliciwch ar y poster uchod er mwyn gweld yr adnoddau sydd ar y wefan, neu ewch i www.gair.cymru

I weld y cyhoeddiad digidol *Cenn@d* yn llawn, dilynwch y ddolen hon: www.cennad.cymru
(Cyhoeddir *Cenn@d* ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)

# Cymanfa CWM Durban

## Ailosod cenhadaeth (Revisioning mission)

*Dyma ail ran erthygl Dyfrig Rees o Gymanfa Cyngor y Genhadaeth Fyd-eang yn Durban eleni.*



### Galwad y deyrnas

Clywodd Dr Cliff Bird, alwad driphlyg yn y damhegion hyn wedi ei hadleisio o gyd-destun bywyd Ynysoedd y Môr Tawel. Galwad berthnasol i bob Cristion beth bynnag fyddo cyd-destun ei fywyd.

Yn gyntaf, gwahoddir ni i feithrin y ddawn o weld arwyddion teyrnasiad Duw yn y greadigaeth. Nid gorchwyl hawdd i un a soniodd am fygythion gwirioneddol ysgytwol i fodolaeth ei gynefin a'i fyd, gyda chynnydd yn lefel y môr, erydu'r arfordir a diflaniad y tiroedd i'r tonnau. Prin fod unrhyw fan ar wyneb daear, bellach, yn rhydd o effeithiau newid hinsawdd ac argyfwng yr amgylchedd. Geilw Duw arnom i droi ocheneidiau'r greadigaeth yn wewyr esgor byd o dan adferiad drwy'n bod ni'n mynnu gosod iechyd y greadigaeth yng nghanol stori fawr ein bywyd a'n tystiolaeth fel pobl Dduw.

Yn ail, gelwir arnom i weld a gwerthfawrogi bywyd yn nhermau cydberthynas a chyd-ddibyniaeth pawb a phopeth ar dir, yn y môr a'r awyr. ' Does gennym ni ddim môr,' meddai Bird, 'ni yw'r môr.' Yn ein hanes ni fel Cymry, diddorol a dadlennol hefyd yw cynnwys y weddi, Bendiged y Cread Dydi o Lyfr Du Caerfyrddin. Mae'n amlwg i'n tadau ystyried eu hunain gyda'r sêr a'r gwenyn, yr awyr a'r ether, y llên a'r llyfrau yn perthyn i deulu mawr y byd yr oedd Duw yn grëwr iddo ac yn teilyngu eu haddoliad, bob un. Tipyn yn nes atom, wrth gwrs, yw emyn gorchestol Pennar Davies, sy'n tystio'n ogoneddus i gyfrinach bywyd y saint yn hyn o fyd. Y mae Duw yn hawlio ein parch a'n cariad at y greadigaeth a'n cydweithrediad â hi.

Yn drydydd, gelwir arnom i fynd i'r afael â'r materion cymdeithasol-wleidyddol, economaidd a diwylliannol hynny sy'n diystyru pobl a'u bychanu, sy'n eu hamddifadu o'r hawl i fywoliaeth a chynhaliaeth a fyddai'n diogelu a gwella eu bywydau a'u byd.

Golyga hyn nad gweithred i'w chyflawni mewn dillad crand mo'r genhadaeth Gristnogol oherwydd gorchwyl yn gofyn am ddillad gwaith yw mynd i'r afael a thlodi ac angen, rhyfel a thrais, newyn a gorthrwm. Y mae Duw'n hawlio bo'r materion hyn yn cyrraedd rhaglenni gwaith a chynlluniau cenhadol ein heglwysi.

Iesu sy'n galw, wrth gwrs, diolch i Dr Cliff Bird o Ynysoedd y Solomon am agor ein clustiau i'w wrando a'n calonnau, gobeithio i wneud yn ôl ei ewyllys. A chyda Iesu, gweddïwn, ' deled dy deyrnas ar y ddaear fel yn y nef.'

# JOHN AMBROSE LLOYD 1815–74

***Cerddor Cymraeg ac awdur emyn-donau***




Meddai Emrys Cleaver ar ddechrau'i bortread o John Ambrose Lloyd yn ei gyfrol *Gwŷr y Gân* (1964): 'Un o wŷr y Cysegr yw John Ambrose Lloyd a'r capel neu'r eglwys yw'r lle gorau i'w roi ef.'

Cafodd ei eni yn yr Wyddgrug ar 14 Mehefin 1815. Uwchben yr adeilad lle'i ganed, yn y Stryd Fawr yn y dref honno mae plac yn dwyn y geiriau sydd yn y llun. Banc Barclays sydd yno bellach. Roedd yn fab i Enoch Lloyd, gwneuthurwr dodrefn a'i briod Catherine. Roedd Enoch yn pregethu gyda'r Annibynwyr cyn troi at y Bedyddwyr a chael ei ordeinio'n weinidog ar eglwys Hill Cliffe yn ymyl Warrington. Pan symudodd y teulu i Hill Cliffe, ac yntau'n 15 oed, aeth John Ambrose Lloyd at ei frawd Isaac yn Lerpwl i'w helpu fel athro ac i baratoi ar gyfer bod yn athro ei hunan. Treuliodd 20 mlynedd yno fel athro ond torrodd ei iechyd a gadawodd addysgu ym 1849. Mentrodd yntau a chyfaill iddo i fyd busnes fel lithograffwyr ond methiant fu'r fenter honno.

### Trafaeliwr

Bu wedyn yn drafaeliwr yng ngogledd Cymru. Bu'n byw yn Bwlch Bach, Dyffryn Conwy a Chaer ac ym 1864 symudodd i'r Rhyl lle'r ymgartrefodd weddill ei oes. Bregus oedd ei iechyd a rhoddodd ei swydd i fyny ym 1871. Aeth ar fordaith i'r Aifft i drio adfer ei iechyd ond ddaeth e ddim adref. Gwaethygodd ei gyflwr. Cyrhaeddodd Lerpwl lle bu farw 14 Tachwedd 1874, sef cant a hanner o flynyddoedd yn ôl i'r mis hwn, a chafodd ei gladdu yno. Mae cofebau iddo yn yr Wyddgrug, y Rhyl ac yn yr Amgueddfa Genedlaethol yng Nghaerdydd. Roedd yntau a'i briod Catherine yn rhieni i ddau fab, John Lloyd a Charles Francis Lloyd, y ddau ohonynt yn gerddorol iawn. A Charles Francis ac Elfed gyhoeddodd gofiant John Ambrose Lloyd.




### Llyn Lleifiad

Yn Lerpwl y datblygodd John Ambrose Lloyd fel cerddor y cysegr. Mae'n debyg iddo grwydro o eglwys i gapel yn Lerpwl – fel y gwnaeth yn llanc ifanc yn yr Wyddgrug – nes dod yn aelod yn eglwys Annibynnol y Tabernacl ym 1835. Roedd ei gefnder, y bardd Emrys (William Ambrose) yn aelod yn y Tabernacl a Williams o'r Wern yn weinidog yno a William Rees (Hiraethog) yn olynydd iddo yntau. Symudodd wedyn yn 1841 i Salem, capel newydd yr Annibynwyr yn Brownlow Hill. Bu ei ddylanwad cerddorol yn fawr yn y ddau gapel.

*parhad ar y dudalen nesaf*

# Golygyddol

## Gwneuthurwyr heddwch

Teimladau cymysg sydd gen i am Sul y Cofio. Ar un llaw rwy'n sylweddoli yr angen i deuluoedd alaru a chofio am anwyliaid fu farw mewn rhyfeloedd ar hyd a lled y byd a sylweddoli'r aberth a wnaed ganddynt. Ymunaf gyda hwy yn eu colled a'u hiraeth. Ond ar y llaw arall rwy'n anghyffyrddus gyda'r agweddau Prydeinllyd a militaraidd sy'n gysylltiedig â'r digwyddiad ac fel gweinidog ar eglwys rwy'n ymwybodol bod gwahanol farn am hyn o fewn i'r gynulleidfa.



### Gwynfydau

Yn ddiweddar rwyf wedi bod yn edrych yn fanwl ar y Gwynfydau ar ddechrau'r bumed bennod o Efengyl Mathew. Cefais gyfle i fyfyrio ar eu harwyddocâd a chael bwyd ysbrydol maethlon wrth wneud hyn. Yr wythnos hon roeddwn yn cnoi cil dros, 'Gwyn eu byd y tangnefeddwyr, oherwydd cânt hwy eu galw'n blant i Dduw.' Wrth wneud hyn sylweddolais eto pa mor radical yw dysgeidiaeth Iesu. Mae'n aflonyddu arnom ac ar ein byd cyfoes rhyfelgar a threisgar.

### Tangnefeddwyr

Ysgrifenna Mathew ar gychwyn y bumed bennod fel hyn, 'Pan welodd Iesu y tyrfaoedd, aeth i fyny'r mynydd, ac wedi iddo eistedd i lawr daeth ei ddisgyblion ato.[2] Dechreuodd eu hannerch a'u dysgu fel hyn:' Felly, roedd Iesu yn benodol yn annerch ei ddisgyblion yma ac yn eu dysgu am nodweddion teyrnas Dduw a'i phobl. Geiriau felly i ni ddilynwyr Iesu yn benodol yw 'Gwyn eu byd y tangnefeddwyr.' Disgwylir i Gristnogion i fod yn dangnefeddwyr. Er fy mod yn hoff iawn o'r gair tangnefeddwyr nid yw'n cyfleu union ystyr y gair Groeg sy'n cael ei ddefnyddio yma sef *eirenopoios*. Mae dwy elfen i'r gair sef *eirene* sy'n golygu heddwch neu dangnefedd a *poios* sy'n golygu gweithredwr neu wneuthurwr. Hyd y gwelaf i y mae cyfieithiad beibl.net yn agosach at yr ystyr Groeg sef, 'Mae'r rhai sy'n hyrwyddo heddwch wedi'u bendithio'n fawr.' (Mae'r 4 Efengyl mewn Cymraeg byw 1971 yn debyg, sef, 'Mor ddedwydd yw'r sawl sy'n gweithio am heddwch; fe'u gelwir yn blant i Dduw.')

Mae cyflwr y Cristion i fod yn ehangach na phrofi profiad mewnol personol o dangnefedd, yr hyn a gawn yn sicr trwy'r Arglwydd Iesu. Yma, disgrifir y Cristion fel un sy'n hyrwyddo heddwch trwy ei fuchedd, ei ymarweddiad a'i weithgarwch, a hynny yn deuluol, cymunedol a rhyngwladol.

### Onest

Mae'r gwneuthurwr tangnefedd yn barod i fod yn onest. Os oes problem rhaid cydnabod hynny a gweithio ar sut i ddatrys y ffrae neu'r gwrthdaro. Mae'r proffwyd Eseciel yn ein rhybuddio yn erbyn pobl sy'n dweud, 'heddwch' pan nad oes heddwch (13: 10). Felly ni allwn anwybyddu gwrthdaro a thensiwn gan smalio fod popeth yn iawn. Mae gormod o hynny'n digwydd o fewn i'n cymdeithas ar hyn o bryd i gymaint o gyfeiriadau. Ni allwn ychwaith anwybyddu sefyllfaoedd lle mae ein llywodraeth yn ymddwyn yn dreisgar ac yn defnyddio ein trethi i arfogi er mwyn ymosod. Mae'r gwneuthurwr tangnefedd hefyd yn barod i wynebu poen ac anghyfleustra sy'n deillio o syrthio ar ei fai neu o geisio cymodi pobl sydd yng ngyddfau ei gilydd. Haws yw gadael i bethau fynd yn aml ond nid dyna'r ffordd Gristnogol o fyw.

### Tywysog Tangnefedd

Yr esiampl odidocaf o hyn yw Iesu, tywysog tangnefedd. Dywedodd Paul amdano, 'Oherwydd gwelodd Duw yn dda i'w holl gyflawnder breswylio ynddo ef, a thrwyddo ef, ar ôl gwneud heddwch trwy ei waed ar y groes, i gymodi pob peth ag ef ei hun, y pethau sydd ar y ddaear a'r pethau sydd yn y nefoedd.' (Col. 1:19–20)

Ni ddysgodd yr Iesu ei ddisgyblion i ymarfogi a defnyddio arfau nac ychwaith i ladd y rhai hynny oedd yn anghytuno ag Ef. Ni chododd fyddin, na lleng na chatrawd ac nid arweiniodd ei bobl i'r gad. Ei arfau ef oedd cariad a maddeuant, gweddi a charedigrwydd a pharodrwydd i ddioddef er mwyn i eraill elwa o'i weithredoedd rhyfeddol.

Heddiw, mae dynoliaeth angen pobl sy'n gweithredu er mwyn dod a heddwch a chymod.

> Tywysog tangnefedd wna'n daear o'r diwedd
> yn aelwyd gyfannedd i fyw;
> ni fegir cenfigen na chynnwrf na chynnen,
> dan goron bydd diben ein Duw.
>
> Jane Ellis

**Alun Tudur**

# JOHN AMBROSE LLOYD 1815–74 – *parhad*

Bu'n arweinydd y gân a ffurfiodd gôr ieuenctid ynddynt. Byddai'n dysgu'r aelodau i ddarllen cerddoriaeth yn seiliedig ar ffurf gynnar y Tonic Sol-ffa. Fe hefyd oedd arweinydd cyntaf Cymdeithas Gorawl Gymraeg Lerpwl ym 1846.

### Cyfansoddwr

Ei dôn gyntaf oedd 'Yr Wyddgrug' a gyfansoddodd pan oedd yn 16 oed. Ymhlith tonau adnabyddus eraill o'i eiddo mae 'Whitford', 'Eifionydd' a 'Groeswen' a hefyd yr anthem 'Teyrnasoedd y Ddaear' – yr anthem orau a ysgrifennwyd i eiriau Cymraeg erioed, yn ôl y Dr Joseph Parry. Ac mae'n debyg mai John Ambrose Lloyd oedd y dylanwad mwyaf ar Joseph Parry i ddilyn cwrs y cerddor. Cyfansoddodd John Ambrose Lloyd nifer fawr o donau, a chyhoeddodd *Casgliad o Donau* (1843) ac *Aberth Moliant* (1870). Mae Emrys Cleaver yn disgrifio *Aberth Moliant*, fel un o'r casgliadau gorau o donau a chorganau yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae'n cynnwys rhai o'i donau gorau. Mae'n nodi fel y cafodd yr eglwys a'r capel ddylanwad ar ei donau. Treuliodd amser rhwng yr Eglwys Wladol a'r Methodistiaid yn yr Wyddgrug cyn dychwelyd at wreiddiau'i dad gyda'r Annibynwyr yn Lerpwl. Yr awgrym yw mai gan yr Annibynwyr y derbyniodd y bywiogrwydd a'r ysgafnder sy'n nodweddu rhai o'i donau, er enghraifft 'Wynnstay' (Am yr ysgol rad Sabothol / Clod, clod i Dduw), gan ei arbed rhag mynd yn rhy Eglwysig a Methodistaidd!

Roedd yn arloeswr fel cerddor a hefyd, yn ôl yr hanes, yn Gristion hardd fel dyn. Yn ôl y *Bywgraffiadur Cymreig*, ei brif wasanaeth i Gymru oedd 'rhoi iddi donau teilwng yn gyfryngau mawl ar ôl iddynt fod yn canu tonau gwael a ddaeth o Loegr i Gymru yn y ddeunawfed ganrif.' Mae'r *Bywgraffiadur* yn ychwanegu: 'Nid oes gasgliad o donau a ddefnyddir gan Gymry yn unrhyw ran o'r byd na cheir nifer da o'i donau ef ynddo.' Mae pymtheg o'i donau yn *Caneuon Ffydd*.

(allan o bapur gofalaeth Elim, Heol Awst a'r Priordy, Tachwedd 2024, rhif 3)

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru

*Golygyddion*

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# Newyddion Saron Creunant

Mae wedi bod yn fisi unwaith eto yn ein heglwys gyda llu o weithgareddau amrywiol yn digwydd o fewn i'n cymuned.

## Diolchgarwch

Dathlwyd y cynhaeaf gydag oedfa Ddiolchgarwch yn Saron lle casglwyd digonedd o fwyd tuag at Fanc Bwyd Cwm Dulais. Gwerthfawrogwn yn fawr iawn pob cyfraniad a ddaeth i law. Pregethwyd ar Dduw ein creawdwr bendigedig.

## Eira Wen

Digwyddiad eithriadol o hwyliog a llwyddiannus oedd ein perfformiad o'r ddrama Snow White and the Sound of Music (a gyfansoddwyd gan un o'n haelodau creadigol). Roedd hwn yn rhan o'n dathliadau i nodi pen blwydd y capel – nid yr eglwys – yn 120 mlwydd oed. Daeth tyrfa luosog o bobl i weld y ddrama ar brynhawn a nos Sadwrn 14 Medi a chodwyd dros £1,500 tuag at elusen Cronfa Jacob Crane Foundation. Diolch o galon i bawb fu'n cynorthwyo mewn unrhyw ffordd er mwyn llwyfannu y sioe arbennig hon.

**Rhys Locke**















*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*